# SL(6)610 – Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025

## Cefndir a diben

Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("y Ddeddf") yn darparu fframwaith statudol newydd ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru a ariennir yn gyhoeddus. Yn benodol, mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd ("y Comisiwn") yn lle Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Yn unol ag adran 148(1) o'r Ddeddf, daeth darpariaethau penodol i rym ar 9 Medi 2022, sef y diwrnod ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 148(2) yn darparu y daw darpariaethau penodol eraill y Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

Gorchymyn Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Darfodol a Throsiannol) 2025 ("y Gorchymyn") yw'r chweched Gorchymyn a wnaed gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer yn adran 148(2).

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau penodol yn y Ddeddf i rym ar 5 Ebrill 2025. Mae Rhan 3 o'r Gorchymyn yn dod â darpariaethau penodol eraill yn y Ddeddf i rym ar 1 Ionawr 2026 a 31 Gorffennaf 2026. Daw rhai darpariaethau i rym yn llawn, daw rhai i rym i'r graddau a nodir ac mae rhai yn ddarostyngedig i ddarpariaethau darfodol neu drosiannol.

Mae Rhan 4 o'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol ynghylch Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Yn ôl y Nodyn Esboniadol, mae'r rhain yn addasiadau mewn perthynas â'r system i ddarparwyr gofrestru gyda'r Comisiwn o dan Ran 2 o'r Ddeddf.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn.

1. Nodir bod y Gorchymyn, nad yw'n ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn graffu gan y Senedd, yn gwneud darpariaeth ddarfodol a throsiannol helaeth, gan gynnwys mewn perthynas â deddfwriaeth sylfaenol.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**24 Ebrill 2025**